Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Crynodeb o'r Gyllideb

# 2017/18

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Cyflwyniad a Chrynodeb | 2-6 |
| | Cyllideb Refeniw'r Cyngor | 7 |
| Atodiad 1: | Crynodeb o Gyllidebau Adrannol: | |
| | • Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata | 8 |
| | • Cyllid | 8 |
| | • Gwasanaethau Addysg a Phlant | 9 |
| | • Ysgolion | 9 |
| | • Gwella Busnes a Moderneiddio | 10 |
| | • Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd | 10 |
| | • Cyfleusterau, Asedau a Thai (ac eithrio'r Cyfrif Refeniw Tai) | 11 |
| | • Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol | 12 |
| | • Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 13 |
| | • Gwasanaethau Cymorth Cymunedol | 14 |
| | • Corfforaethol ac Amrywiol | 15 |
| Atodiad 2: | Crynodeb o Gynllun Cyfalaf | 16-19 |
| Atodiad 3: | Cyfrif Refeniw Tai (HRA) a'r Cynllun Cyfalaf Tai | 20-22 |

# Cyflwyniad a Chrynodeb

Diben Llyfr y Gyllideb hwn yw amlygu i Aelodau, Swyddogion ac unrhyw un arall â diddordeb sut mae Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu gwario ei gyllidebau Refeniw a Chyfalaf. Bydd hefyd yn rhoi manylion y Cyfrif Refeniw Tai a Chyllideb Cyfalaf Tai ar gyfer 2017/18.

Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn y llyfryn hwn yn rhoi manylion costau uniongyrchol gwasanaethau sydd o dan reolaeth deiliaid cyllideb. Mae'r cyllidebau ar gyfer 2016/17 wedi eu hailddatgan yma i gymryd i ystyriaeth ailstrwythuro gwasanaeth er mwyn gwneud cymariaethau'n fwy ystyrlon.

Mae strategaeth ariannol y Cyngor yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae hon yn strategaeth ariannol dreigl tair blynedd ac yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer gweithgaredd y flwyddyn bresennol. Gellir gweld y cynllun ar wefan y Cyngor.

**Setliad Llywodraeth Cymru (LIC) 2017/18**

Derbyniwyd y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol ar gyfer 2017/18 ar 21 Rhagfyr 2017 ac roedd yn darparu cynnydd o ran arian parod o 0.62%. Er bod y Setliad yn darparu ar gyfer cynnydd o ran arian parod, mewn termau real mae'n doriad gan nad yw'n rhoi unrhyw ystyriaeth i chwyddiant na phwysau o ran y galw ar wasanaethau. Er mwyn i'r sefyllfa ariannu fod yn niwtral, byddai angen i'r Setliad fod tua +4%.

Roedd y setliad terfynol yn dangos gostyngiad bychan mewn cyllid cyfalaf. Mae'r cyllid wedi gostwng 0.12% (sy'n cyfateb i tua £0.006miliwn) i £4.865miliwn.


**Cyllideb Refeniw 2017/18**

Yng nghyfarfod y Cyngor ar 31 Ionawr 2017 roedd aelodau wedi ystyried a chymeradwyo cynigion cyllideb y Cabinet a'r effaith o ganlyniad ar Dreth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.
Mae prif nodweddion y cynnig yn cynnwys:

- Cynnydd o ran arian parod yn setliad refeniw Llywodraeth Leol y Cyngor gan Lywodraeth Cymru o 0.6%.
- Gostyngiad yn arian cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru o -0.12%.
- Darpariaeth adnoddau ychwanegol ar gyfer effaith rhywfaint o bwysau chwyddiannol.
- Cynnydd o £1.9miliwn mewn arian i ysgolion.
- Darpariaeth o £0.750miliwn i gydnabod y pwysau ariannol parhaus sy'n wynebu gofal cymdeithasol.
- Pwysau chwyddiannol yn cael ei ddiwallu gan arbedion effeithlonrwydd o £0.902miliwn, PFI/arbedion Cyllido Cyfalaf o £1.355miliwn, defnyddio balansau a chynyddu cyllid Treth y Cyngor.
- Buddsoddi £0.2miliwn mewn meysydd blaenoriaeth.
- Defnyddio £2.122miliwn o arian wrth gefn (£1.5miliwn o Arian Wrth Gefn Lliniaru'r Gyllideb) a balansau cyffredinol (£0.622miliwn)

Cyllideb refeniw gros ar gyfer 2017/18 yw £296.529miliwn. Bydd y Cyngor yn cynhyrchu neu'n derbyn £48.340 miliwn mewn ffioedd a chodiannau ac yn derbyn £58.937miliwn mewn grantiau penodol, gan adael cyllideb refeniw net o £189.252miliwn i'w ddiwallu gan Lywodraeth Cymru a Threthdalwyr. Mae'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2017/18 yn

£109.860miliwn a disgwylir i £46.656miliwn gael ei gynhyrchu o Dreth y Cyngor. Mae dyraniad y cyngor o'r gronfa Trethi Annomestig Cenedlaethol yn £30.614m. Mae'r gyllideb o £189.252miliwn yn £3.632miliwn uwchben yr Asesiad Gwario Safonol sef £185.620miliwn – amcangyfrif Llywodraeth Cymru o'r hyn sydd ei angen i ddarparu 'lefel gwasanaeth safonol'.




Mae'r cynnydd ar gyfer y gyllideb fel a ganlyn:

| | £000 |
|---|---|
| **2016/17 Cyllideb Sylfaenol** | **185,062** |
| Diogelu a Chwyddiant | 5,852 |
| Grantiau bellach wedi'u cynnwys neu eu trosglwyddo allan o'r setliad | 68 |
| Arbedion Effeithlonrwydd a Dargedwyd | (2,257) |
| Cyfrifoldebau Newydd | 327 |
| Buddsoddi mewn blaenoriaethau | 200 |
| **Cyllideb Refeniw Net 2017/18** | **189,252** |

*i)* *Chwyddiant*

Darparwyd ar gyfer cynnydd mewn tâl i staff yn 2017/18 ar gyfer codiad cyflog o 1%. Gwnaed cynnydd hefyd ar gyfer costau pensiwn sy'n codi, effaith y cynnydd mewn Cyflog Byw Cenedlaethol, cyflwyno'r Ardoll Prentisiaeth, gostyngiadau mewn amrywiol daliadau lles, cynnydd uwch na chwyddiant yn Ardoll y Gwasanaeth Tân a chynnydd sylweddol arfaethedig mewn costau ynni. Cymerir hefyd y bydd yna gynnydd canrannol bach mewn trethi busnes ar gyfer eiddo'r cyngor ac yswiriant.

Tybir y bydd gwasanaethau yn amsugno unrhyw bwysau chwyddiannol eraill.

*i) Gwarchod Ysgolion*

Ers 2011/12 bu addewid gan y gweinidogion i 'amddiffyn' cyllidebau ysgolion. Y mecanwaith ar gyfer hyn oedd awgrymu bod awdurdodau lleol yn cynyddu cyllidebau ysgolion 1% yn fwy na'r 'grant bloc' refeniw i Gymru. Mae'r cyngor bob amser wedi cyflawni'r ymrwymiad hwn ac mewn gwirionedd wedi rhagori ar y gofyniad dros y cyfnod. Nid yw'r setliad presennol yn cyfeirio o gwbl at yr addewid hwn, fodd bynnag mae cynigion cyllideb y cyngor yn cynnwys cyllid ychwanegol o £1.9 miliwn ar gyfer ysgolion yn 2017/18. Yna mae'n rhaid i ysgolion ymdopi ag unrhyw bwysau ar chwyddiant.

*ii) Grantiau wedi'u cynnwys a'u trosglwyddo allan o'r Setliad*

Fel rhan o'r Setliad Refeniw, trosglwyddwyd y grantiau canlynol i mewn ac allan o'r sylfaen:

| | £000 |
|---|---|
| **Trosglwyddiadau i mewn:** | |
| Grant Cyflawni Trawsnewid | 94 |
| Safonau Diogelu Rhag Colli Rhyddid | 6 |
| Cynllun Sgôr Hylendid Bwyd | 2 |
| **Trosglwyddo Allan:** | |
| Ffioedd Cofrestru Athrawon Cyngor Gweithlu Addysg | (34) |
| | |
| **Cyfanswm Net** | **68** |

*iv) Cydbwyso'r Gyllideb*

Cafodd bwlch yn y gyllideb o £4.4m ei nodi ar gyfer 2017/18. Cytunwyd ar gynigion arbed yn dod i gyfanswm o £2.3 miliwn i lenwi'r bwlch hwn, gan gynnwys ymrwymiad parhaus i gyflawni 1% o effeithiolrwydd. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnig y defnydd o £2.1 miliwn o gronfeydd a balansau ariannol.

Mae tudalen 7 yn dangos crynodeb o'r gyllideb refeniw yn ôl gwasanaeth ar gyfer 2017/18 a 2016/17 gyda'r tudalennau canlynol yn rhoi manylion pob gwasanaeth.

**Balansau**

Mae'r cyngor wedi datblygu balansau cyffredinol o £7.608miliwn ar 31 Mawrth 2016, yn ogystal â lefel doeth o arian wrth gefn penodol. Mae cyllideb 2017/18 wedi'i gosod yn defnyddio £2.1 miliwn o gronfeydd a balansau ariannol gyda chytundeb i ddefnyddio £1.4miliwn ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Mae hyn yn gynaliadwy yn y tymor byr ond nid yw'n ateb tymor hir. Mae'n rhaid i'r defnydd o arian parod gael ei adennill dros flynyddoedd i ddod ond gellir ei ddefnyddio i esmwytho effaith gostyngiadau cyllid mewn modd wedi'i gynllunio.

**Treth y Cyngor**

Eleni cytunodd aelodau etholedig ar gynnydd o 2.75% yn Nhreth y Cyngor. Mae Treth y Cyngor sy'n daladwy ar gyfer pob band eiddo am wasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Ddinbych wedi'i fanylu isod:

| Band Treth | Treth y Cyngor 2017/18 £ | Treth y Cyngor 2016/17 £ |
|---|---|---|
| A | 794.17 | 772.90 |
| B | 926.54 | 901.72 |
| C | 1,058.90 | 1,030.53 |
| D | 1,191.26 | 1,159.35 |
| E | 1,455.98 | 1,416.98 |
| F | 1,720.71 | 1,674.62 |
| G | 1,985.43 | 1,932.25 |
| H | 2,382.52 | 2,318.70 |
| I | 2,779.61 | 2,705.15 |

**Cynllun Cyfalaf 2017/18**

Mae'n rhaid i'r Cyngor gyfrif am ei fuddsoddiad yn ei asedau sefydlog ar wahân i drefniadau beunyddiol y sefydliad. Bydd prosiectau cyfalaf yn prynu, trwsio, adnewyddu a datblygu asedau fel y gallant barhau i gael eu defnyddio yn y dyfodol.

Mae setliad cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18 wedi gweld gostyngiad o 0.12% (£0.006miliwn) o'i gymharu â 2016/17. Mae hyn yn parhau'r setliadau cyfalaf gwael iawn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y saith mlynedd diwethaf. Yn ogystal â hyn, mae grantiau penodol yn y dyfodol yn debygol o gael eu gosod ar lefel is nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Gyda'r diffyg buddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, nid oes gan y Cyngor unrhyw ddewis ond i barhau i ddibynnu ar ei adnoddau ei hun i fuddsoddi mewn prosiectau allweddol. Mae hyn yn golygu clustnodi adnoddau i gynhyrchu arian, gan ddefnyddio benthyca darbodus neu hyd yn oed werthu asedau i gynhyrchu derbyniadau.

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn cynhyrchu cynllun cyfalaf 3 blynedd sy'n rhoi manylion ynglŷn â lle y mae'n debygol o wario ei arian. Bydd pob cais am adnoddau cyfalaf yn cael ei adolygu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol (grŵp sy'n cynnwys aelodau etholedig ac uwch swyddogion) cyn cael ei ystyried ar gyfer ei gynnwys yn y Cynllun Cyfalaf. Cytunwyd ar y Cynllun Cyfalaf ar gyfer 2017/18 i 2019/20 gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2017. Mae crynodeb o'r Cynllun Cyfalaf ar dudalen 16, ynghyd â dadansoddiad fesul gwasanaeth ar dudalen 17-19.

**Stoc Dai**

Mae gan y Cyngor ddwy swyddogaeth o fewn tai. Mae'r cyntaf yn swyddogaeth statudol i fynd i'r afael â digartrefedd yn y Sir. Mae'r ail fel landlord stoc dai'r Cyngor o tua 3,417 o anheddau. Er bod y gyllideb ddigartrefedd wedi'i chynnwys yng nghyllideb refeniw cyffredinol y Cyngor, mae'n rhaid i'r stoc dai gael ei chyfrif ar wahân.

Mae'r gyllideb ar gyfer y stoc dai wedi'i chynnal yn y Cyfrif Refeniw Tai. Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i hwn gael ei gadw hollol ar wahân i wasanaethau eraill. Ni all Treth y Cyngor gael ei ddefnyddio i ariannu unrhyw wariant Cyfrif Refeniw Tai ac ni ellir defnyddio rhenti tai ar gyfer unrhyw beth heblaw gwasanaethau tai. Cafodd Cyllideb Cyfrif Refeniw Tai ei

chymeradwyo gan y Cabinet ar 24 Ionawr 2017. Amcangyfrifir y bydd yn gwario £15.179miliwn, a ariannwyd gan rentu tai sef £14.330miliwn ac incwm arall o £0.534miliwn. Mae cynllun cyfalaf tai ar gyfer 2017/18 yn gyfanswm o £10.057miliwn i'w wario ar wella'r stoc dai, buddsoddi mewn caffaeliadau ac adeiladau newydd a gwelliannau eraill.

Mae'r Cynllun Busnes Stoc Dai yn tybio y cynhelir balans o £2m dros y tymor canolig i liniaru yn erbyn unrhyw risgiau yn y dyfodol. Mae'r lefel hon o falans a gedwir yn fwy na 10% o'r trosiant refeniw blynyddol a thybir fod hyn yn ofalus a chall yn yr hinsawdd economaidd bresennol, gan ganiatáu rhywfaint o le os oes unrhyw amgylchiadau annisgwyl yn codi yn ystod cyfnod y tymor byr hyd ar dymor canolig y Cynllun. Mae cadw'r balans ar lefel y gellir ei reoli yn lleihau'r angen i estyn y lefel gyfredol o fenthyca ag arbedion canlyniadol yng nghostau ariannu cyfalaf blynyddol. Mae'r strategaeth hon hefyd yn caniatáu cwmpas pellach ar gyfer y Cynllun yn y dyfodol i estyn y gofyniad benthyca os oes angen, ond hefyd sicrhau bod yr Awdurdod yn aros o fewn Cyfyngiad at Ddyledusrwydd y Cyfrif Refeniw Tai fel y gosodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cyflawnodd y Cyngor Safon Ansawdd Tai Cymru i'r holl Stoc Tai ym mis Medi 2014. Mae gwariant cyfalaf wedi cael ei gynnwys yn y CBST sy'n sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i gynnal y safon hon hyd at ddiwedd y cynllun 30 mlynedd. Mae'r arolwg o gyflwr y stoc wedi nodi gwaith atgyweirio, cynnal a chadw a chostau gwella ar gyfer y 30 mlynedd nesaf sydd wedi cael eu cynnwys ar ôl hynny yn y cynllun busnes.

Mae crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai wedi'i gynnwys yn y Llyfr Cyllideb.

**Casgliad**

Nod proses y gyllideb yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Mae'r ansicrwydd ynghylch lefel y setliadau ariannol yn y blynyddoedd diwethaf wedi ei gwneud yn fwy heriol i gynllunio'n ariannol mewn amgylchiadau a oedd eisoes yn anodd. Er bod y setliad refeniw ar gyfer 2017/18 yn well na'r hyn yr oedd y cyngor wedi cael ei arwain i gredu y byddai ac mae hyn yn amlwg yn cael ei groesawu, erys diffyg unrhyw arwyddion cynllunio ariannol ystyrlon ar gyfer y dyfodol.

Mae'n debygol y bydd gostyngiadau cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau yn y tymor canolig ac er y bydd y cyngor bob amser yn ymdrechu i fod yn fwy effeithlon er mwyn arbed arian, efallai na fydd hyn ynddo'i hun yn ddigonol yn y dyfodol.

Rhagwelir y bydd pwysau ar y gyllideb gofal cymdeithasol yn parhau yn y tymor canolig ac y bydd yn her wrth ddarparu cyllidebau yn y dyfodol.

Mae cynigion y gyllideb yn cynnwys y defnydd o arian parod. Mae hyn yn gynaliadwy yn y tymor byr ond nid yw'n ateb tymor hir. Y cyfan mae'n ei wneud yw rhoi mwy o amser i'r cyngor esmwytho effaith y gostyngiadau cyllido.

Mae cydweithrediad a gwaith caled swyddogion ac aelodau wrth baratoi'r gyllideb yn cael ei gydnabod yn ddiolchgar.

**RICHARD WEIGH**
**PENNAETH CYLLID (SWYDDOG ADRAN 151)**

# CYNGOR SIR DDINBYCH - CYLLIDEB REFENIW

| | CYLLIDEB REFENIW 2017/18 £ | CYLLIDEB REFENIW 2016/17 £ |
|---|---|---|
| **CRYNODEB O GYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR** | | |
| CWSMERIAID, CYFATHREBU A MARCHNATA | 2,719,148 | 2,695,689 |
| CYLLID | 2,914,573 | 2,888,374 |
| GWASANAETHAU ADDYSG A PHLANT | 14,115,970 | 14,126,020 |
| YSGOLION | 66,307,450 | 64,439,280 |
| GWELLA BUSNES A MODERNEIDDIO | 4,574,600 | 4,572,241 |
| GWASANAETHAU CYFREITHIOL, AD A DEMOCRATAIDD | 2,432,429 | 2,396,015 |
| CYFLEUSTERAU, ASEDAU A THAI | 7,531,928 | 6,962,531 |
| GWASANAETHAU PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD | 17,367,334 | 17,064,946 |
| CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD | 3,029,820 | 2,940,719 |
| GWASANAETHAU CYMORTH CYMUNEDOL | 32,389,117 | 31,218,298 |
| **CYFANSWM GWASANAETHAU** | **153,382,369** | **149,304,113** |
| CORFFORAETHOL AC AMRYWIOL | 18,380,317 | 18,179,859 |
| CYLLIDO CYFALAF | 4,524,683 | 4,363,962 |
| PRAESEPTAU AC ARDOLLAU | 12,964,631 | 13,214,451 |
| **CYFANSWM CYLLIDEB Y CYNGOR** | **189,252,000** | **185,062,385** |

**Atodiad 1**

**CYLLIDEB REFENIW**

| | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **CWSMERIAID, CYFATHREBU A MARCHNATA** | | |
| **RHEOLWYR A CHEFNOGAETH** | **146,677** | **144,543** |
| **CYRCHFAN, MARCHNATA A CHYFATHREBU** | | |
| CYFATHREBU CORFFORAETHOL | 186,642 | 185,730 |
| EISTEDDFOD RYNGWLADOL LLANGOLLEN | 6,080 | 6,080 |
| TWRISTIAETH | 343,147 | 342,128 |
| PROSIECTAU CORFFORAETHOL | -14,130 | -14,130 |
| **CYFANSWM CYRCHFAN, MARCHNATA A CHYFATHREBU** | **521,739** | **519,808** |
| **GWASANAETHAU LLYFRGELLOEDD A'R CELFYDDYDAU** | | |
| LLYFRGELLOEDD | 1,051,400 | 1,036,822 |
| GWASANAETH LLYFRGELL CARTREF | 26,710 | 26,154 |
| RHEOLI A CHEFNOGI | 56,869 | 73,578 |
| LLYFRYDDIAETH | 37,231 | 37,231 |
| Y CAPEL | 47,130 | 45,412 |
| SIOPAU UN ALWAD | 608,212 | 593,070 |
| BOOKSTART | 2,786 | 2,786 |
| **CYFANSWM** | **1,830,338** | **1,815,053** |
| **GWASANAETHAU CWSMERIAID** | | |
| GOFAL CWSMER | 220,394 | 216,285 |
| **CYFANSWM GWASANAETHAU CWSMERIAID** | **220,394** | **216,285** |
| **CYFANSWM CWSMERIAID, CYFATHREBU A MARCHNATA** | **2,719,148** | **2,695,689** |

| | | |
|---|---|---|
| **CYLLID** | | |
| **CYLLID CANOLOG** | | |
| TRYSORYDD A CHEFNOGAETH | 392,477 | 389,457 |
| CYFRIFON | 1,238,152 | 1,229,548 |
| TRYSORLYS | 431,944 | 417,369 |
| **CYFANSWM CYLLID CANOLOG** | **2,062,573** | **2,036,374** |
| **REFENIW A BUDD-DALIADAU** | | |
| REFENIW | 1,516,374 | 1,516,374 |
| COST CASGLLU | -664,374 | -664,374 |
| **CYFANSWM REFENIW A BUDD-DALIADAU** | **852,000** | **852,000** |
| **CYFANSWM CYLLID** | **2,914,573** | **2,888,374** |

**Atodiad 1**

| | CYLLIDEB REFENIW 2017/18 £ | CYLLIDEB REFENIW 2016/17 £ |
|---|---|---|
| **GWASANAETHAU ADDYSG A PHLANT** | | |
| **ADDYSG** | | |
| RHEOLAETH A CHEFNOGAETH | 34,351 | 33,557 |
| RHEOLI ASEDAU | 250,720 | 248,800 |
| CEFNOGI BUSNES | 222,265 | 218,898 |
| MODERNEIDDIO ADDYSG | 149,977 | 144,582 |
| CEFNOGAETH LLYWODRAETHWYR | 2,763 | 2,763 |
| COSTAU AD-DREFNU YSGOLION | 1,229,059 | 1,229,059 |
| ADY A CHYNHWYSIANT | 2,547,059 | 2,510,220 |
| RHEOLI | 1,306,351 | 1,389,757 |
| ADENNILL COSTAU | -1,315,405 | -1,265,405 |
| GRANTIAU SI & I | 345,555 | 345,555 |
| GWELLA YSGOLION | 1,108,269 | 1,101,048 |
| GWELLA YSGOLION A CHYNHWYSIAD | -141 | -141 |
| **CYFANSWM ADDYSG** | **5,880,823** | **5,958,693** |
| **GWASANAETHAU PLANT** | | |
| GWASANAETHAU CEFNOGI TEULU | 807,767 | 802,910 |
| GWASANAETHAU PLANT SY'N DERBYN GOFAL | 3,371,167 | 3,384,167 |
| GWASANAETHAU PLANT ERAILL | 221,416 | 221,416 |
| DIOGELU AC ADOLYGU | 278,487 | 274,178 |
| STRATEGAETH GWASANAETH | 3,325,236 | 3,255,748 |
| TROSEDDAU'R IFANC | 231,074 | 228,908 |
| **CYFANSWM GWASANAETHAU PLANT** | **8,235,147** | **8,167,327** |
| **GWASANAETHAU PLANT AC ADDYSG** | **14,115,970** | **14,126,020** |

| | 2017/18 £ | 2016/17 £ |
|---|---|---|
| **YSGOLION** | | |
| **YSGOLION - DIRPRWYEDIG** | 70,873,522 | 69,005,352 |
| **YSGOLION - ANNIRPRWYEDIG** | | |
| ADDYSG GYNRADD ANNIRPRWYEDIG | -1,899,312 | -1,899,312 |
| UWCHRADD ANNIRPRWYEDIG | -2,710,444 | -2,710,444 |
| YSGOLION ARBENNIG - ANNIRPRWYEDIG | 43,684 | 43,684 |
| **CYFANSWM YSGOLION ANNIRPRWYEDIG** | **-4,566,072** | **-4,566,072** |
| **CYFANSWM YSGOLION** | **66,307,450** | **64,439,280** |

Atodiad 1

| | CYLLIDEB REFENIW 2017/18 £ | 2016/17 £ |
|---|---|---|
| **GWELLA BUSNES A MODERNEIDDIO** | | |
| | | |
| **GWELLA BUSNES A MODERNEIDDIO** | | |
| RHEOLI GWYBODAETH | 319,468 | 315,790 |
| TIM RHEOLI BIM | 417,299 | 411,274 |
| CYNLLUNIO STRATEGOL | 345,083 | 346,298 |
| SWYDDFA RHAGLEN GORFFORAETHOL | 321,039 | 324,299 |
| ARCHWILIO | 166,803 | 172,635 |
| DIOGELWCH CYMUNEDOL | 28,795 | 28,107 |
| **CYFANSWM GWELLA BUSNES A MODERNEIDDIO** | **1,598,487** | **1,598,403** |
| | | |
| **TGCh** | | |
| RHEOLAETH TGCh | 2,537,111 | 2,513,836 |
| CEFNOGAETH DARPARU GWASANAETH | 356,403 | 377,403 |
| ISADEILEDD TGCh | 82,599 | 82,599 |
| **CYFANSWM TGCh** | **2,976,113** | **2,973,838** |
| | | |
| **CYFANSWM GWELLA BUSNES A MODERNEIDDIO** | **4,574,600** | **4,572,241** |

| | | |
|---|---|---|
| **GWASANAETHAU CYFREITHIOL, AD A DEMOCRATAIDD** | | |
| | | |
| **GWASANAETHAU CYFREITHIOL A DEMOCRATAIDD** | | |
| RHEOLAETH A CHEFNOGAETH | 164,839 | 159,135 |
| GWEINYDDU | 365,175 | 425,901 |
| CYFREITHWYR Y SIR | 721,957 | 631,578 |
| DINESIG | 8,050 | 12,050 |
| CYFIEITHU | 175,000 | 175,000 |
| COFRESTRYDD - GENEDIGAETHAU/MARWOLAETHAU/PRIODA | 42,237 | 37,486 |
| COFRESTRU ETHOLWYR | 133,873 | 132,525 |
| **CYFANSWM GWASANAETHAU CYFREITHIOL A DEMOCRATAI** | **1,611,131** | **1,573,675** |
| | | |
| **ADNODDAU DYNOL STRATEGOL** | | |
| RHEOLAETH A CHEFNOGAETH | -74,747 | -62,747 |
| HYFFORDDIANT | 53,253 | 52,310 |
| IECHYD GALWEDIGAETHOL | 27,289 | 26,021 |
| ADNODDAU STAFF A CHYSYLLTIADAU | 772,561 | 764,116 |
| HYFFORDDEION | 42,942 | 42,640 |
| **CYFANSWM ADNODDAU DYNOL STRATEGOL** | **821,298** | **822,340** |
| | | |
| **CYFANSWM GWASANAETHAU CYFREITHIOL, AD A DEMOCRATAIDD** | **2,432,429** | **2,396,015** |

Atodiad 1

| | CYLLIDEB REFENIW 2017/18 £ | 2016/17 £ |
|---|---|---|
| **CYFLEUSTERAU, ASEDAU A THAI (AC EITHRIO HRA)** | | |
| | | |
| **GWASANAETHAU HAMDDEN** | | |
| SEFYDLIADAU HYD BRAICH | 14,407 | 16,824 |
| HAMDDEN MASNACHOL | 2,175,478 | 1,743,117 |
| HAMDDEN STRATEGOL | 307,177 | 290,049 |
| **CYFANSWM GWASANAETHAU HAMDDEN** | **2,497,062** | **2,049,990** |
| | | |
| **RHEOLAETH A CHEFNOGAETH** | **373,598** | **367,555** |
| **GWASANAETHAU IEUENCTID** | **530,060** | **524,637** |
| **CAFFAEL** | **229,180** | **217,038** |
| **IECHYD A DIOGELWCH** | **169,885** | **164,603** |
| | | |
| **CYFLEUSTETRAU** | | |
| GLANHAU ADEILADAU | 127,006 | 79,664 |
| ARLWYO | 557,220 | 500,214 |
| CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS | 293,923 | 293,482 |
| SWYDDFEYDD | 1,068,269 | 1,053,656 |
| ADRAN RHEOLI CYFLEUSTERAU YSGOLION | 2,635 | -39 |
| DERBYNFA - RHEOLI CYFLEUSTERAU | 47,446 | 46,087 |
| **CYFANSWM CYFLEUSTERAU** | **2,096,499** | **1,973,064** |
| | | |
| **EIDDO** | | |
| CYFLEUSTERAU ARFORDIROL | -164,187 | -157,032 |
| YSTADAU AMAETHYDDOL | -69,618 | -71,645 |
| EIDDO AMRYWIOL | 33,230 | 34,360 |
| RHANDIROEDD | -5,166 | -5,166 |
| PRISIO AC YSTADAU | 123,449 | 115,484 |
| ASEDAU SEFYDLOG | 264,847 | 258,727 |
| CYFLEUSTERAU A CHYNNAL A CHADW | 1,232,525 | 1,220,287 |
| DYLUNIO AC ADEILADU | 80,589 | 65,873 |
| IECHYD A DIOGELWCH | 178,000 | 178,000 |
| PRIF REOLWR EIDDO | 420,260 | 499,636 |
| YSTADAU DIWYDIANNOL | -458,285 | -472,880 |
| **CYFANSWM EIDDO** | **1,635,644** | **1,665,644** |
| | | |
| **CYFANSWM CYFLEUSTERAU, ASEDAU A THAI (AC EITHRIO HRA)** | **7,531,928** | **6,962,531** |

Atodiad 1

| | CYLLIDEB REFENIW 2017/18 £ | CYLLIDEB REFENIW 2016/17 £ |
|---|---|---|
| **GWASANAETHAU PRIFFYRDD AC AMGYLCHEDDOL** | | |
| **CEFN GWLAD, DIWYLLIANT, TREFTADAETH** | | |
| AMGYLCHEDD - CEFN GWLAD | 648,510 | 657,772 |
| DIWYLLIANT | 187,770 | 187,334 |
| TREFTADAETH | 257,755 | 248,089 |
| **CYFANSWM CEFN GWLAD, DIWYLLIANT, TREFTADAETH** | **1,094,035** | **1,093,195** |
| **RHEOLI GWAS. PRIFFYRDD AC AMGYLCHEDDOL** | | |
| STORFEYDD | -57,505 | 132,244 |
| RHEOLAETH | 329,481 | 323,460 |
| RHEOLI STORFEYDD | -81,012 | 27,835 |
| **CYFANSWM RHEOLI GWAS. PRIFFYRDD AC AMGYLCHEDDOI** | **190,964** | **483,539** |
| **PRIFFYRDD STRATEGOL** | | |
| PONTYDD A STRWYTHURAU | 281,943 | 279,909 |
| CYNLLUNIO RHAG ARGYFWNG | 97,000 | 97,000 |
| RHEOLI RISG O LIFOGYDD | 31,535 | 29,416 |
| RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD | 1,148,652 | 1,146,108 |
| HAWLIAU TRAMWY | 249,411 | 246,150 |
| CLUDIANT CYHOEDDUS | 528,262 | 526,366 |
| CLUDIANT YSGOLION | 4,218,954 | 3,901,346 |
| GWAITH STRYD | -89,004 | -72,230 |
| **CYFANSWM PRIFFYRDD STRATEGOL** | **6,466,753** | **6,154,065** |
| **STRYDLUN** | | |
| RHEOLI A GWEINYDDU | 926,581 | 689,412 |
| AR DRAWS Y SIR | 724,038 | 730,458 |
| STRYDLUN GOGLEDD | 1,721,204 | 1,738,343 |
| STRYDLUN DE | 1,033,205 | 1,033,087 |
| **CYFANSWM STRYDLUN** | **4,405,028** | **4,191,300** |
| **GWASTRAFF A FFLYD** | | |
| FFLYD | -40,163 | -60,005 |
| GWASTRAFF | 4,456,275 | 4,410,745 |
| **CYFANSWM GWASTRAFF A FFLYD** | **4,416,112** | **4,350,740** |
| **UNED GWAITH** | | |
| GRŴP PROSIECTAU MAWR | -241,708 | -221,238 |
| GOLEUADAU STRYD | 1,036,150 | 1,013,345 |
| **CYFANSWM UNED GWAITH** | **794,442** | **792,107** |
| **CYFANSWM GWAS. PRIFFYRDD AC AMGYLCHEDDOL** | **17,367,334** | **17,064,946** |

**Atodiad 1**

| | CYLLIDEB REFENIW 2017/18 £ | 2016/17 £ |
|---|---|---|
| **CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD** | | |
| | | |
| **TRAFFIG A PHARCIO** | | |
| RHEOLI TRAFFIG A PHARCIO | 61,456 | 60,082 |
| GWASANAETHAU PARCIO | -700,268 | -720,622 |
| RHEOLI DATBLYGIAD PRIFFYRDD | 113,695 | 110,636 |
| DIOGELWCH FFYRDD | 321,317 | 314,313 |
| RHEOLI TRAFFIG | 299,290 | 297,256 |
| **CYFANSWM TRAFFIG A PHARCIO** | **95,490** | **61,665** |
| | | |
| **CYNLLUNIO** | | |
| STRATEGAETH TAI | 68,466 | 67,155 |
| GRANTIAU ADNEWYDDU | 42,523 | 36,877 |
| GWASANAETHAU ADNEWYDDU | 5,434 | 3,817 |
| CYNLLUNIO - RHEOLAETH A CHEFNOGAETH | 322,144 | 346,051 |
| CYNLLUN A PHOLISI DATBLYGU | 254,639 | 249,521 |
| CADWRAETH A GWEITHREDU | 62,017 | 61,722 |
| RHEOLI DATBLYGU | 54,537 | 43,156 |
| RHEOLI ADEILADU | 30,022 | 24,546 |
| PRIDIANNAU TIR | -37,891 | -38,755 |
| **CYFANSWM CYNLLUNIO** | **801,891** | **794,090** |
| | | |
| **GWARCHOD Y CYHOEDD** | | |
| GWARCHOD Y CYHOEDD - RHEOLI A CHEFNOGI | 249,019 | 243,597 |
| DIOGELWCH BWYD | 234,122 | 227,115 |
| GORFODAETH CYMUNEDOL | 118,114 | 114,705 |
| IECHYD A DIOGELWCH - GORFODAETH | 118,597 | 116,536 |
| IECHYD Y CYHOEDD | 196,568 | 192,315 |
| TRWYDDEDU | -69,818 | -73,419 |
| SAFONAU MASNACH | 277,257 | 272,075 |
| GORFODAETH TAI | 265,484 | 259,438 |
| **CYFANSWM GWARCHOD Y CYHOEDD** | **1,389,343** | **1,352,362** |
| | | |
| **DATBLYGU ECONOMAIDD A BUSNES** | **743,096** | **732,602** |
| | | |
| **CYFANSWM CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD** | **3,029,820** | **2,940,719** |

**Atodiad 1**

| | CYLLIDEB REFENIW 2017/18 £ | 2016/17 £ |
|---|---|---|
| **GWASANAETHAU CEFNOGI CYMUNEDOL** | | |
| | | |
| **CEFNOGI BUSNES** | | |
| GWASANAETHAU CLEIENT | 619,215 | 602,514 |
| DERBYNYDDIAD | 2,736 | 72 |
| DARPARWR | 2,857,975 | 2,796,219 |
| DATBLYGU GWEITHLU A GWEINYDDOL | 936,814 | 962,508 |
| CYSYLLTIADAU CWSMER | 201,516 | 227,721 |
| CYFLEOEDD GWAITH | 729,806 | 716,978 |
| **CYFANSWM CEFNOGI BUSNES** | **5,348,062** | **5,306,012** |
| | | |
| **ARDALOEDD** | | |
| ARDAL TYMOR HIR - GOGLEDD | 8,377,063 | 8,241,362 |
| AILALLU | 633,667 | 664,605 |
| TYMOR HIR DE | 4,892,141 | 4,814,219 |
| STORFEYDD TELEOFAL | 194,689 | 167,531 |
| BYW'N ANNIBYNNOL GYDA CHEFNOGAETH | 8,827 | -195 |
| UN PWYNT MYNEDIAD | 79,588 | 119,903 |
| **CYFANSWM ARDALOEDD** | **14,185,975** | **14,007,425** |
| | | |
| **CYMUNEDAU A LLES** | | |
| GWASANAETH GOFALWYR | 229,887 | 229,173 |
| COMISIYNU | 107,895 | 145,397 |
| DATBLYGU CYMUNEDOL | 58,273 | 57,103 |
| STRATEGAETH GWEITHREDIADAU | 2,560 | 24,560 |
| MUDIADAU GWIRFODDOL A GRANTIAU | 561,023 | 561,023 |
| HAWLIAU LLES | 507 | 507 |
| CEFNOGI TAI | 622,773 | 462,754 |
| **CYFANSWM CYMUNEDAU A LLES** | **1,582,918** | **1,480,517** |
| | | |
| **GWASANAETHAU ARBENIGOL** | | |
| GOFAL CYMUNEDOL | 4,532,104 | 4,532,104 |
| BYW YN Y GYMUNED | 4,238,325 | 3,488,325 |
| IECHYD MEDDWL | 2,642,525 | 2,626,382 |
| STAFFIO | 974,160 | 947,705 |
| **CYFANSWM GWASANAETHAU ARBENIGOL** | **12,387,114** | **11,594,516** |
| | | |
| **GOFAL IECHYD CEFNDY** | **0** | **0** |
| | | |
| **GWASANAETHAU CANOLOG OEDOLION** | | |
| GWASANAETHAU OEDOLION | -633,808 | -594,158 |
| GWASANAETHAU ERAILL OEDOLION | -481,144 | -576,014 |
| **CYFANSWM GWASANAETHAU CANOLOG OEDOLION** | **-1,114,952** | **-1,170,172** |
| | | |
| **CYFANSWM GWASANAETHAU CEFNOGI CYMUNEDOL** | **32,389,117** | **31,218,298** |

**Atodiad 1**

| | CYLLIDEB REFENIW | |
|---|---|---|
| | **2017/18** | **2016/17** |
| | **£** | **£** |
| **CORFFORAETHOL AC AMRYWIOL** | | |
| | | |
| **BUDD-DALIADAU TRETH Y CYNGOR** | **9,116,772** | **9,166,772** |
| | | |
| **CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL** | | |
| WRTH GEFN | 450,000 | 50,000 |
| PRIF WEITHREDWR - YSGRIFENYDDIAETH | 181,644 | 178,436 |
| UNSAIN | 25,241 | 24,911 |
| CRWNER | 184,560 | 212,093 |
| CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL | 259,940 | 275,535 |
| AELODAU | 971,784 | 964,784 |
| ETHOLIADAU | 26,660 | 26,660 |
| PROSIECT DATBLYGU GLAN MÔR Y RHYL | 204,422 | 0 |
| CYNLLUNIO RHAG ARGYFWNG CORFFORAETHOL | 1,500 | 1,500 |
| EITEMAU CORFFORAETHOL | 638,082 | 646,081 |
| BUDDSODDIADAU AC ARIAN WRTH GEFN CORFFORAETHOL | 4,634,545 | 4,847,235 |
| CYLLIDEBAU A GYNHELIR YN GANOLOG | 1,685,167 | 1,785,852 |
| **CYFANSWM CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL** | **9,263,545** | **9,013,087** |
| | | |
| **CYFANSWM CORFFORAETHOL AC AMRYWIOL** | **18,380,317** | **18,179,859** |

## Cyngor Sir Ddinbych - Cynllun Cyfalaf 2016/17 - 2019/20

**ATODIAD 2**

## Sefyllfa hyd at ddiwedd 2017

| Cynllun Cyfalaf Cyffredinol | | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwariant Cyfalaf | | | | | |
| | Cyfanswm Amcangyfrif o Daliadau - Cyffredinol | 18,835 | 9,946 | 242 | 171 |
| | Cyfanswm Amcangyfrif o Daliadau - Cynllun Corfforaethol | 19,917 | 15,572 | 937 | 0 |
| | Wrth gefn | 184 | 500 | 500 | 500 |
| | Cyfanswm | 38,936 | 26,018 | 1,679 | 671 |
| Cyllid Cyfalaf | | | | | |
| Cyllid Allanol | | 15,730 | 15,258 | 5,286 | 4,869 |
| Derbynebau ac Arian Wrth Gefn | | 13,611 | 2,567 | 138 | |
| Benthyca Darbodus | | 9,595 | 8,193 | 624 | 171 |
| Cyllid heb ei ddyrannu | | 0 | 0 | (4,369) | (4,369) |
| | Cyfanswm Arian Cyfalaf | 38,936 | 26,018 | 1,679 | 671 |

| Cynllun Corfforaethhol<br>Adolygwyd Chwefror 2016 | | 2016/17<br>£000s | 2017/18<br>£000s | 2018/19<br>£000s | 2019/20<br>£000s |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf Cymeradwy | Buddsoddiad Gofal Iechyd Cefndy | 0 | 103 | | |
| wedi'i gynnwys yn y cynllun uchod | Gofal Ychwanegol | 20 | 80 | | |
| | Cynnal a chadw priffyrdd a phontydd | 2,742 | 2,550 | | |
| | Pontydd | | | | |
| | Ysgol newydd Rhuthun | 3,898 | 6,891 | 368 | |
| | Astudiaeth Dichonolrwydd - Carreg Emlyn | 273 | | | |
| | Ysgol newydd Llanfair | 29 | 407 | | |
| | Ysgol Uwchradd y Rhyl | 2,585 | 340 | | |
| | Ysgol Bro Dyfrdwy - Adolygiad Gorllewin Dyffryn Dyfrdwy | 33 | | | |
| | Ysgol Gymunedol Bodnant | 928 | 43 | | |
| | Ysgol Glan Clwyd | 9,328 | 3,806 | 569 | |
| | Ysgol Uwchradd Ffydd | 81 | 1,352 | | |
| Amcangyfrif Gwariant Cyfalaf | | 0 | 6,968 | 25,009 | 9,422 |
| | Cyfanswm Amcangyfrif Gwariant | 19,917 | 22,540 | 25,946 | 9,422 |
| Cyllid Cyfalaf Cymeradwy | Cyllid Allanol | 4,653 | 6,330 | 417 | |
| yn y cynllun uchod | Derbyniadau ac Arian | 8,180 | 1,552 | 138 | |
| | Benthyca Darbodus | 7,084 | 7,690 | 382 | |
| Amcangyfrif Cyllid Cyfalaf | Arian Allanol | 0 | 2,170 | 12,898 | 592 |
| | Derbyniadau ac Arian Wrth Gefn | 0 | 1,449 | 3,317 | 4 |
| | Benthyca Darbodus | 0 | 3,349 | 8,794 | 8,826 |
| | Cyfanswm Amcangyfrif Arian | 19,917 | 22,540 | 25,946 | 9,422 |

**Cyngor Sir Ddinbych - Cynllun Cyfalaf 2016/17 - 2019/20** ATODIAD 2

**Sefyllfa Hyd at Ionawr 2017**

| PENNAETH GWASANAETH<br>CRYNODEB O RAGLEN GYFALAF | 2016/17<br>Amcangyfrif<br>Rhaglen<br>£000 | 2017/18<br>Amcangyfrif<br>Rhaglen<br>£000 | 2018/19<br>Amcangyfrif<br>Rhaglen<br>£000 | 2019/20<br>Amcangyfrif<br>Rhaglen<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Datblygiad Economaidd a Busnes | 4,352 | 477 | | |
| Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol | 7,448 | 6,568 | | |
| Gwasanaethau Addysg a Phlant | 19,839 | 14,864 | 937 | |
| Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata | 112 | | | |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 3,760 | 1,310 | | |
| Cyfleusterau, Asedau a Thai | 1,837 | 1,386 | | |
| Gwella Busnes a Moderneiddio | 964 | 277 | 242 | 171 |
| Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol | 287 | 570 | | |
| Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd | 153 | 66 | | |
| Wrth Gefn | 184 | 500 | 500 | 500 |
| **CYFANSWM CRYNODEB PENNAETH GWASANAETH** | **38,936** | **26,018** | **1,679** | **671** |

**Cyngor Sir Ddinbych - Cynllun Cyfalaf 2016/17 - 2019/20** **ATODIAD 2**

**Sefyllfa hyd at Ionawr 2017**

| RHAGLEN GYFALAF<br>MANYLION CYNLLUNIAU | 2016/17<br>Amcangyfrif<br>Rhaglen<br>£000 | 2017/18<br>Amcangyfrif<br>Rhaglen<br>£000 | 2018/19<br>Amcangyfrif<br>Rhaglen<br>£000 | 2019/20<br>Amcangyfrif<br>Rhaglen<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| **Datblygiad Economaidd a Busnes** | | | | |
| Datblygu Harbwr y Rhyl | 60 | | | |
| Datblygu Glan Môr y Rhyl | 3,500 | 277 | | |
| Grantiau Datblygu Busnes | 17 | | | |
| Prosiectau Cymunedol | 20 | | | |
| Grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | 650 | | | |
| Rhaglen Gwella Tai Gorllewin y Rhyl - gwaith Prif Raglen | 105 | 200 | | |
| **Cyfanswm Datblygiad Economaidd a Busnes** | **4,352** | **477** | **0** | **0** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol** | | | | |
| Caeau Chwarae | 16 | | | |
| Loggerheads - Estyniad Maes Parcio | 309 | | | |
| Cerbydau Strydlun | 151 | | | |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd ac Arall | 3,301 | 3,190 | | |
| Pontydd | 227 | 220 | | |
| Hawliau Tramwy | 98 | | | |
| Rheoli Asedau | 59 | | | |
| Goleuadau Stryd | 198 | | | |
| Goleuadau stryd - mesurau arbed ynni ailwefradwy | 30 | | | |
| Goleuadau Stryd - Golau LED Cynaliadwy | 226 | 269 | | |
| Amddiffyn Arfordir - Archwiliadau a chynnal a chadw hanfodol | 246 | 50 | | |
| Amddiffyn Arfordir - Gorllewn y Rhyl Cam 3 | 214 | | | |
| Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl | 20 | 2,639 | | |
| Llifogydd Arfordirol 2013 | 165 | | | |
| Wal Newydd Clwb Hwylio y Rhyl - Gwerthuso Prosiect | 130 | | | |
| Clwb Golff y Rhyl - Camau 1 - 4 Amddiffyn yr Arfordir | 710 | 200 | | |
| Cynlluniau Atal Llifogydd - Dinbych ac eraill | 272 | | | |
| Cynllun Atal Llifogydd - Dylunio a Datblygu Dyserth | 101 | | | |
| Bwnd Llifogydd Glasdir | 18 | | | |
| Depo Lôn Parcwr - Gwaith Gwella | 57 | | | |
| Cerbydau, Peiriannau ac Offer | 900 | | | |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol** | **7,448** | **6,568** | **0** | **0** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Plant ac Addysg** | | | | |
| Cynnal a Chadw Cyfalaf Ysgolion | 2,240 | 2,025 | | |
| Diogelu Ysgolion | 30 | | | |
| Cludiant Gweithle Ysgolion | 70 | | | |
| Gwaith DDA | 58 | | | |
| Ysgol Plas Brondyffryn - Ailfodelu'r Fynedfa | 13 | | | |
| Trawsnewid Addysg Cyfrwng Cymraeg 3-18 yng Ngogledd Sir Ddinbych | 59 | | | |
| Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain- Ysgol Bro Dyfrdwy -Est. ac Adnewyddu | 33 | | | |
| Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain - Adeiladu Ysgol newydd y Rhyl | 2,585 | 340 | | |
| Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain - Ysgol Gymunedol Bodnant - Est. ac Adne | 928 | 43 | | |
| Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain - Ysgol Glan Clwyd - Est. ac Adnewyddu | 9,328 | 3,806 | 569 | |
| Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain - Stryd y Rhos ac Ysgol Penbarras | 3,898 | 6,891 | 368 | |
| Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain - Llanfair - Adeiladu ysgol newydd | 29 | 407 | | |
| Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain - Ysgol Carreg Emlyn Dichonolrwydd/Dylun | 273 | | | |
| Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain - Ysgol Ffydd | 81 | 1,352 | | |
| Addasiadau i Dai Gofalwyr Maeth | 214 | | | |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Addysg a Phlant** | **19,839** | **14,864** | **937** | **0** |
| | | | | |
| **Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata** | | | | |
| Llyfrgell Prestatyn - Adleoli | 15 | | | |
| Nova Prestatyn - Gwaith ar y Maes Parcio | 97 | | | |
| **Cyfanswm Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata** | **112** | **0** | **0** | **0** |

| RHAGLEN GYFALAF<br>MANYLION CYNLLUNIAU | 2016/17<br>Amcangyfrif<br>Rhaglen<br>£000 | 2017/18<br>Amcangyfrif<br>Rhaglen<br>£000 | 2018/19<br>Amcangyfrif<br>Rhaglen<br>£000 | 2019/20<br>Amcangyfrif<br>Rhaglen<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** | | | | |
| Grantiau Gwella Tai | 1,716 | 1,200 | | |
| Ardaloedd Adnewyddu | 1,014 | | | |
| Cynyddu ECO - Tai Sector Preifat Cam 2 | 144 | | | |
| Cynllunio Tref a Gwlad - Adran 106 | 51 | | | |
| Dyraniad Bloc Traffig | 178 | 110 | | |
| Meysydd Parcio | 46 | | | |
| Cronfa Cludiant Lleol 2016/17 | 257 | | | |
| Llwybrau Diogel mewn Cymunedau 2016/17 | 263 | | | |
| Diogelwch Ffyrdd Lleol 2016/17 | 91 | | | |
| **Cyfanswm Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** | **3,760** | **1,310** | **0** | **0** |
| | | | | |
| **Cyfleusterau, Asedau a Thai** | | | | |
| Ystadau Amaethyddol | 293 | 140 | | |
| Asbestos | 351 | 50 | | |
| Gwaith DDA/Cydraddoldeb | 42 | 20 | | |
| Dyrannu Bloc Eiddo | 650 | 1,050 | | |
| Gwaith Asesu Risg Tân - Adeiladau Cyhoeddus | 28 | 20 | | |
| Rhaglen Effeithiolrwydd Ynni a Charbon Ased | 60 | | | |
| Gwaith Iechyd a Diogelwch Hanfodol (derbyniadau cyfalaf) | 20 | | | |
| Cynlluniau Goleuadau Effeithiolrwydd Ynni | 65 | | | |
| Monitro Datguddiad Nwy Radon | 5 | | | |
| Cau Swyddfa Ffordd Brighton | 313 | | | |
| Haul Road, Prestatyn - Ardal Bywyd Gwyllt Anffurfiol | 10 | | | |
| Gwaith Iechyd a Diogelwch - Ceginau Ysgol | | 46 | | |
| Rhaglen Adnewyddu Cyfleusterau Cyhoeddus | | 60 | | |
| **Cyfanswm Cyfleusterau, Asedau a Thai** | **1,837** | **1,386** | **0** | **0** |
| | | | | |
| **Gwella Busnes a Moderneiddio** | | | | |
| Strategaeth TGCh - Cam 2 | 822 | 277 | 242 | 171 |
| Cynlluniau Tref ac Ardal | 142 | | | |
| **Cyfanswm Gwella Busnes a Moderneiddio** | **964** | **277** | **242** | **171** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol** | | | | |
| Mân Addasiadau, Offer Cymunedol a Teleofal | 248 | 220 | | |
| Datblygiadau PARIS | 19 | 40 | | |
| Buddsoddiad Gofal Iechyd Cefndy | | 103 | | |
| Cysgod y Gaer - Biomas | | 127 | | |
| Gofal Ychwanegol - Dinbych | 19 | 80 | | |
| Gofal Ychwanegol - Corwen | 1 | | | |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol** | **287** | **570** | **0** | **0** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd** | | | | |
| Prosiect Gwella Ystâd Cyfreithiol | | 21 | | |
| Swyddfa Gofrestru y Rhyl - Adleoli i Neuadd y Dref y Rhyl | 50 | 45 | | |
| Neuadd y Sir, Rhuthun - Gwelliannau yn Siambr y Cyngor | 103 | | | |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd** | **153** | **66** | **0** | **0** |
| | | | | |
| **Wrth gefn** | **184** | **500** | **500** | **500** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cynllun Cyfalaf** | **38,936** | **26,018** | **1,679** | **671** |

# CRYNODEB O GYLLIDEB CYFRIF REFENIW TAI A CHYNLLUN CYFALAF TAI 2017/18

## Cyflwyniad

Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2017, mabwysiadodd y Cabinet y gyllideb refeniw a chynllun cyfalaf ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Trwy fabwysiadu'r gyllideb, cytunwyd ar gynnydd rhent ar gyfer anheddau a garejis yn unol â pholisi gosod rhent o ddydd Llun 3 Ebrill 2017.

## Cyllideb Refeniw Tai

Mae cyllideb Cyfrif Refeniw Tai a fabwysiadwyd gan y Cabinet yn ymddangos ar y dudalen nesaf ac wedi cael ei chyfrifo ar y sail ganlynol:

- Gwnaed naw Gwerthiant Hawl i Brynu (RTB) yn 2016/17. Mae'r Cynllun busnes wedi cael ei brofi gyda'r rhagdybiaeth na fydd unrhyw werthiant ac nid oes unrhyw effaith andwyol ar y cynllun.
- Mae dau cyn-dŷ cyngor wedi cael eu prynu yn ystod y flwyddyn.
- Mae rhaglen o adeiladau newydd wedi'i thybio yn y Cynllun Busnes Stoc Tai at ddibenion cynllunio nes y datblygir cynlluniau penodol.
- **Polisi Rhent Llywodraeth Cymru** - Datblygodd Llywodraeth Cymru bolisi ar gyfer rhenti tai cymdeithasol a fydd yn cael ei weithredu'n gyson gan bob landlord cymdeithasol ac yn adlewyrchu math; maint; lleoliad ac ansawdd eiddo'r Landlord. Mae'r mecanwaith ar gyfer cynyddu rhenti yn seiliedig ar y canlynol:Rhwng 2015/16 a 2018/19, y cynnydd blynyddol yw CPI a 1.5%, a £2 yr wythnos ar gyfer tenantiaid unigol, lle bo landlord yn ceisio dod â'r rhent wythnosol cyfartalog o fewn y 'band rhent targed' (rhent targed yw cyfrifiad y Llywodraeth o beth ddylai rhent cyfartalog tenantiaid cymdeithasau tai a thenantiaid y cyngor fod).
    - Yr unig eithriad i hyn fydd os yw'r CPI yn syrthio y tu allan i ystod o rhwng 0% a 4%. Lle bo hyn yn digwydd, bydd angen penderfyniad gan y Gweinidog ar lefel y cynnydd rhent i'w weithredu yn y flwyddyn honnoYm mis Rhagfyr 2016 cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y

  cynnydd fel y cytunwyd yn flaenorol. Mae hyn yn golygu bod y cynnydd rhent yn 2.5% (CPI+1.5%) a £2 (lle bo'n briodol).
- Mae'r Cynllun Busnes Stoc Dai yn parhau i fod yn hyfyw ac yn gadarn ac mae'r tybiaethau a wnaed yn ddarbodus.

## Cynllun Cyfalaf Tai

Mae gwariant cyfalaf wedi ei gynnwys yn y CBST sy'n sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i barhau i gynnal y safon hon hyd at ddiwedd y cynllun 30 mlynedd. Mae'r arolwg o gyflwr y stoc wedi nodi gwaith atgyweirio, cynnal a chadw a chostau gwella ar gyfer y 30 mlynedd nesaf sydd o ganlyniad wedi eu cynnwys yn y cynllun busnes.

**Atodiad 3**

# CYLLIDEB CYFRIF REFENIW TAI 2017/18

| 2015/16 Alldro Terfynol £ | | 2016/17 Cyllideb £ | 2016/17 Rhagolwg Alldro £ | 2017/18 Cyllideb Arfaethedig £ |
|---|---|---|---|---|
| | **GWARIANT** | | | |
| 2,225,141 | Goruchwylio a Rheoli - Cyffredinol | 2,418,597 | 2,437,483 | 2,503,284 |
| 370,100 | Goruchwylio a Rheoli - Taliadau Gwasanaeth | 427,271 | 423,968 | 399,870 |
| 593 | Gwasanaethau Lles | 0 | 0 | 0 |
| 3,001,464 | Atgyweirio a Chynnal a Chadw | 3,191,157 | 3,838,281 | 3,883,526 |
| **5,597,298** | **Cyfanswm Rheoli Tai** | **6,037,025** | **6,699,732** | **6,786,680** |
| 6,001,985 | Eitem 8 Taliadau Cyfalaf | 6,016,334 | 5,981,681 | 6,601,569 |
| 1,405,066 | Cyfalaf a Ariannwyd o Refeniw | 1,821,480 | 1,703,061 | 1,709,824 |
| 0 | Cymhorthdal | 0 | 0 | 0 |
| -10,302 | Darparu ar gyfer Dyledion Gwael | 134,050 | 34,118 | 80,888 |
| **12,994,047** | **Cyfanswm Gwariant** | **14,008,889** | **14,418,592** | **15,178,961** |
| | **INCWM** | | | |
| 13,224,121 | Rhenti (net) | 13,734,736 | 13,611,508 | 14,329,877 |
| 341,886 | Taliadau Gwasanaeth | 342,888 | 339,585 | 349,001 |
| 166,965 | Garejis | 178,439 | 166,429 | 175,057 |
| 13,484 | Llog ar Falansau ac Incwm Arall | 10,100 | 11,891 | 10,355 |
| **13,746,456** | **Cyfanswm Incwm** | **14,266,163** | **14,129,413** | **14,864,290** |
| | | | | |
| **752,409** | **Gweddill / Diffyg (-) am y flwyddyn:** | **257,274** | **-289,179** | **-314,671** |
| 1,851,441 | Gweddill ar ddechrau'r flwyddyn ~ Cyffredinol | 2,603,850 | 2,603,850 | 2,314,671 |
| 2,603,850 | Gweddill ar ddiwedd blwyddyn ~ Cyffredinol | 2,861,124 | 2,314,671 | **2,000,000** |

# CYNLLUN BUSNES STOC DAI 2016/17 - 2020/21

| CRYNODEB | 2016/17 £000 | 2017/18 £000 | 2018/19 £000 | 2019/20 £000 | 2020/21 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWARIANT CYFALAF** | | | | | |
| Gwelliannau Wedi'u Cynllunio | 6,871 | 6,004 | 6,108 | 6,627 | 4,526 |
| Adeilad Newydd | 0 | 2,248 | 4,802 | 2,901 | 6,229 |
| Caffael eiddo/tir presennol | 3,838 | 1,325 | 0 | 650 | 0 |
| Gwelliannau eraill | 475 | 480 | 489 | 770 | 785 |
| | **11,184** | **10,057** | **11,399** | **10,948** | **11,540** |
| **ARIAN CYFALAF** | | | | | |
| Lwfans Atgywiriadau Mawr | 2,420 | 2,420 | 2,420 | 2,420 | 2,420 |
| Derbyniadau Cyfalaf a Ddefnyddir | 177 | 20 | 1,100 | 0 | 0 |
| Cyfalaf a Ariennir trwy Refeniw | 1,703 | 1,705 | 1,053 | 1,245 | 785 |
| Benthyca Darbodus | 6,884 | 5,912 | 6,826 | 7,283 | 8,335 |
| | **11,184** | **10,057** | **11,399** | **10,948** | **11,540** |
| **GWARIANT REFENIW** | | | | | |
| Rheoli ~ Cyffredinol | 2,861 | 2,899 | 2,975 | 3,074 | 3,184 |
| Trwsio a Chynnal a Chadw | 3,838 | 3,878 | 3,929 | 4,005 | 4,151 |
| Cyfalaf a Ariannwyd trwy Refeniw | 1,703 | 1,705 | 1,053 | 1,245 | 785 |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Gwael | 34 | 81 | 137 | 139 | 140 |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 5,981 | 6,601 | 7,061 | 7,586 | 8,157 |
| | **14,417** | **15,164** | **15,155** | **16,049** | **16,417** |
| **INCWM REFENIW** | | | | | |
| Incwm Rhentu | 13,801 | 14,516 | 14,817 | 15,716 | 16,079 |
| Di-rym | -191 | -199 | -203 | -216 | -221 |
| Taliadau Gwasanaeth | 340 | 349 | 352 | 356 | 360 |
| Incwm Garej | 166 | 174 | 178 | 183 | 189 |
| Llog ar Falansau | 12 | 11 | 11 | 10 | 10 |
| | **14,128** | **14,851** | **15,155** | **16,049** | **16,417** |
| **BALANSAU** | | | | | |
| Balans a ddygwyd ymlaen | 2,604 | 2,315 | 2,002 | 2,002 | 2,002 |
| Gweddill / Diffyg (-) am y flwyddyn | -289 | -313 | 0 | 0 | 0 |
| Balans a ddygwyd ymlaen | **2,315** | **2,002** | **2,002** | **2,002** | **2,002** |